**Cystadleuaeth 379- Cyflwyniad/sgwrs wedi'i recordio Bl6ac iau (D)**

**Thema Diddordebau**

**Beirniad: Delyth Robyns**

Hoffwn ddiolch i'r deuddeg cynnig ddaeth i law, roedd hi'n bleser gwrando ar y cyflwyniadau a phob un yn wahanol. Roedd rhai yn unigolion, un grŵp a'r gweddill yn sgyrsiau.

Roedd hi'n braf gwrando a gwylio'r sgyrsiau oedd yn digwydd yn naturiol iawn i'r rhan fwyaf ac mae'r dysgwyr i'w canmol am fod mor rhugl yn y Gymraeg. Roedd y cyfraniadau yn arbennig o dda gydag amrywiaeth o flwyddyn 3 – flwyddyn 6!

Mae hi'n ddifyr dysgu mwy am wahanol ddiddordebau'r plant a pha mor bwysig ydy diddordebau iddyn nhw. Dwi wedi dysgu dipyn am ddiddordebau sy'n amrywio o fynd ar sgwter, darllen, cyfansoddi, lego, codio gemau, dawnsio a gymnasteg aerial a thrapeze! Mae na blant dawnus iawn yma yng Nghymru a dwi wedi dod i wybod am uchelgais ambell un i fod yn awdur neu yn wyddonydd. Daliwch ati efo'ch diddordebau a'r Gymraeg a phob lwc i chi yn y dyfodol.

Sos Coch

Diolch i Leo sy'n 9 oed am sōn am ei ddiddordebau o ddarllen, nofio, mynd ar sgwter a chwarae pėl-droed. Roedd hi'n ddiddorol clywed am y triciau cŵl yn y parc sglefrio ac am dy lwyddiant efo'r tim pėl-droed ac am ganlyniad y gėm. Roedd hi'n braf clywed y cyffro wrth sōn dy fod wedi sgorio 7 gōl i guro tīm Dinbych-y-Pysgod 18-0. Ceisia fod yn fwy naturiol wrth gyflwyno dy bwnc, roedd ambell ran yn unsillafog. Ymdrech dda.

Mbappe

Cyflwyniad hyderus a difyr gan Hugo am chwaraeon o bob math gawn ni yma. Llongyfarchiadau ar gael dy ddewis i chwarae criced i'r tīm rhanbarthol. Roedd yn naturiol iawn a rhugl yn trafod ei hoff chwaraewr criced a phėl-droed gan fynegi barn wrth resymu yn effeithiol gyda 'dwi'n dwli…' ac 'yn fy marn i..' yn rhoi amrywiaeth o batrymau iaith. Da iawn efo'r treiglo 'ar ddydd' a gwylia rhai geiriau fel ynganu 'twrnament'. Perfformiad arbennig o dda.

Ronaldo

Gwych gweld y cyflwyiad ar fideo a bod gen ti nifer o ddiddordebau i siarad amdanyn nhw oedd yn amrywio o gyfansoddi, pėl fasged,drama i ffilmiau. Rwyt ti'n amlwg wedi paratoi yn dda ac yn siarad yn naturiol rhan amlaf. Gwylia gamynganu'r gair 'celf'. Da iawn ti.

Gwanwyn

Roedd Emelia sy'n 11 oed yn llawn gwybodaeth am ei diddordebau. Yn siarad yn hyderus a naturiol am ei diddordebau gan ynganu yn dda. Roedd defnydd cyson o gystrawen ' Yn fy marn i, mae'n well gyda fi", 'Ar y llaw arall' wrth gymharu'n aeddfed wrth sôn am nofio. Braf gweld cymhariaeth wrth drafod y ddol, bod ei 'gwallt brown fel siocled." Er bod yr ynganu yn dda roedd ambell air fel 'byw' a 'chwarae', 'heini; yn cael eu cam-ynganu. Ymdrech dda iawn.

Lego

Chwarae lego am oriau ydy prif ddiddordeb Roan sy'n 8 oed, braf clywed amdano yn gofalu am yr ieir a chasglu wyau hefyd. Ceisia sgwrsio yn fwy naturiol wrth berfformio yn y dyfodol, da iawn ti. Dal ati.

Draig Ddu

7 oed ydy Evie Rose sy'n esbonio fod mynd i'r parc a chwarae efo'i ffrindiau ymhlith ei hoff ddiddordebau ac yn cyfaddef nad ydy hi'n hoff o wneud gwaith cartref. Roedd hi'n esbonio gan ddefnyddio'r amrywiaeth o batrymau iaith yn gywir. Da iawn ti.

Draig Goch

Difyr oedd clywed am uchelgais Bethan i fod yn awdur ar ol ymweliad gan Meilir Sion â'r ysgol. Defnydd da o gystrawen 'cawson ni siawns..'. Mae'n ddiddorol clywed mwy am y gamp o aerial gymnasteg  ar raffau a swing yn yr awyr! Am hwyl!  Gwylia ynganu rhai geiriau fel 'diddordebau'. Da iawn

Hugo a Harley

Diolch am y sgwrs rhwng y ddau fachgen a chwaraeon yn brif ddiddordeb i'r ddau. Roedd hi'n ddiddorol clywed am y criced, y pêl-droed, pêl-fasged a barn y ddau am gathod! Roedd Hugo yn fwy naturiol a hyderus  na Harley yn y sgwrs. Defnydd da o'r gystrawen 'fy mhrif ddiddordeb.' Daliwch ati ac ymdrech dda iawn.

Ceffyl

Braf gweld cyflwyniad fideo Emilia am glwb cubs Amlwch yn siarad yn hyderus, rhugl a naturiol am fod yn aelod o'r cubs. Roedd hi'n dda iawn yn esbonio'n naturiol ac yn fanwl iawn beth roedd hi'n ei fwynhau am ei diddordeb a'i fod yn ffordd da o wneud ffrindiau. Roedd y campio yng Nghaernarfon yn swnio yn hwyl! Er bod ambell i air Saesneg, roedden nhw wedi eu Cymreigio yn naturiol fel rhan o'r sgwrsio yn ystod y cyflwyniad fel 'marchio'. Perfformiad arbennig o dda a naturiol wrth drafod y pwnc.

Ysgol Cei Newydd

Cynhyrchiad hwyliog a defnydd da o gerddoriaeth i gyflwyniad Sgwrs ger y lli ar Radio Cei Newydd. Roedd y grŵp wedi paratoi'n drylwyr i'r pwnc, Ffordd greadigol i'r grŵp esbonio yn gyntaf beth yw diddordeb, ei bwrpas a wedyn sut fath o ddiddordebau sy'n boblogaidd iddyn nhw. Roedd y golygu'n dda oedd yn gwneud i'r sgwrs lifo yn sydyn. Roedd pob aelod o'r grŵp yn siarad yn glir wrth gyflwyno gwybodaeth. Roedd amrywiaeth o batrymau iaith trwy gydol y sgwrs gyda defnydd cywir o 'nid yn unig..; 'pan fyddwn i'n ...'. Roedd pawb yn siarad yn glir ac yn ymateb i'w gilydd yn dda, rhai yn fwy hyderus a naturiol nag eraill. Gwyliwch nad yw ambell i gyfraniad yn mynd yn unsillafog. Perfformiad arbennig o dda fel grŵp.

Ezmae ac Indigo

Sgwrs fywiog, naturiol rhwng y ddwy o Grymych. Maent yn siarad yn dda a rhwydd, gyda'r sgwrs yn llifo o un i'r llall mor naturiol. Mae'r ddwy yn holi ac ateb ac yn esbonio wrth fynegi barn. Braf oedd clywed am ddiddordebau diddorol o grefft gwneud calonau gydag origami a chrosio a gweu. Mae Ezmae yn hyderus ac mae'r ddwy yn ymateb yn dda i holi ei gilydd gan ynganu'n dda. Defnydd da o gystrawen iaith, roeddwn i'n hoffi iawn o gymhariaeth Ezmae wrth ddisgrifio snwd y babi yn 'feddal fe cwmwl' a'r ddwy wrth eu bodd yn mynd yn uchel gydag aerial, math o gymnasteg. Diolch am esbonio mwy am y gamp a sōn pa mor bwysig ydy cadw'n heini. Ymdrech dda iawn.

Lily a Hannah

Braf gweld y ddwy ferch yn sgwrsio yn egniol ar y fideo. Roedd Lily ym mlwyddyn 3 yn hyderus ac yn siarad yn rhwydd yn son am ei chwaraeon a dawnsio. Hoffwn glywed mwy am y gwahanol ddiddordebau ac esbonio pam eu bod yn hwyl wrth iddyn nhw holi ei gilydd. Roedd y ddwy yn holi ei gilydd gan ddefnyddio 'Mae'n well gen i …' yn dda a byddai'n dda gweld mwy o fynegi barn gan Hannah. Daliwch ati.

Diolch am bwysleisio mai mwynhau a bod yn hapus yw pwrpas diddordebau a gwneud hynny mewn iaith gywir a rhugl ar y cyfan.

Canlyniad

1af. Ceffyl

2ail. Ysgol Cei Newydd

3ydd Mbappe

Gyda diolch o galon i bawb am eu gwaith. Roedd hi'n gystadleuaeth agos iawn.